# Taflen wybodaeth yr arolwg

Hoffem glywed am brofiadau pobl hŷn yng Nghymru sy'n gofalu am rywun yn ddi-dâl, gallai fod yn aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog.

Os yw'r cwestiynau canlynol yn **Wir** amdanoch chi, hoffem glywed gennych:

- **A ydych chi'n 50 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn byw yng Nghymru?**
- **A ydych chi'n gofalu'n ddi-dâl am aelod o'r teulu, ffrind neu eraill oherwydd afiechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, neu anabledd, neu broblemau sy'n ymwneud â heneiddio?**
- **Nid ydych chi'n manteisio ar unrhyw wasanaethau neu gymorth ffurfiol i'ch helpu chi yn eich rôl yn gofalu am rywun ar hyn o bryd?**

## Sut allwch chi ein helpu ni

Hoffem i chi gwblhau arolwg o'ch sefyllfa i'n helpu ni i ddysgu am y math o wybodaeth a chymorth a allai eich cefnogi chi yn eich rôl yn gofalu am rywun.

Dylai'r arolwg gymryd tua 15 munud i'w gwblhau a gallwch wneud hyn ar-lein neu ar bapur, a'i ddychwelyd atom yn rhad ac am ddim.

Bydd eich cyfraniad yn ein cynorthwyo i:

- Ddeall anghenion pobl sy'n gofalu am rywun ac nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau cefnogi ar hyn o bryd
- Datblygu cefnogaeth yn seiliedig ar unigolion a gwella'r wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael i bobl fel chithau, a;
- Rhannu ein dysg â sefydliadau gwirfoddol, awdurdodau lleol fel y gallant ymgorffori hyn yn eu gwaith ymarferol gyda phobl sy'n gofalu am rywun.

Ar ddiwedd yr arolwg rydym wedi nodi manylion ynglŷn â phwy y gallwch gysylltu gyda nhw os hoffech ddysgu mwy am ein prosiect, trafod eich profiadau ymhellach neu os oes angen rhagor o gymorth a gwybodaeth arnoch i'ch cynorthwyo chi i ofalu am rywun.

## Cefndir y prosiect

Mae Age Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu modelau gwasanaeth ar sail unigolion i adnabod anghenion gofalwyr hŷn a gofalwyr pobl sy'n dioddef o ddementia, a bodloni eu hanghenion yn well, a ariennir gan Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

**Am ragor o wybodaeth ynghylch ein prosiect, cysylltwch â'r Swyddog Prosiect Gofalwyr, LukeConlon drwy luke.conlon@agecymru.org.uk neu ffoniwch 07989 152 529.**

**Cyngor Age Cymru:**

Ffôn: 0300 303 44 98 (Llun-Gwener 9am tan 4pm)

www.agecymru.org.uk/advice

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru:**

Ffôn: 0300772 9702
www.carerstrust.wales

**Diolch i chi am eich amser a'ch cyfraniad at yr arolwg hwn**

Age Cymru, Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Llys Trident,
Heol East Moors, Caerdydd, CF24 5TD

Ffôn: 029 2043 1555
Rhif yr elusen: 1128436

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac yn gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad cofrestredig y swyddfa Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD.

© Age Cymru 2020